OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 3034 (Cy.222)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40) (Troetffordd/Ffordd Feiciau Gyfun, Windyhall, Abergwaun) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Hydref 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *18 Tachwedd 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 10 Priffyrdd 1980(**1**) a phob pŵer galluogi arall (**2**):

**1.** Daw'r droetffordd/ffordd feiciau newydd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn yr atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn:—

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain— Abergwaun (A40)

(ii) ystyr "y gefnffordd newydd"("*the new trunk road*") yw'r gefnffordd y cyfeirir ati yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn.

(iii) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan ac arno'r rhif HA10/2 NAFW 5 ac arno'r marc " Gorchymyn Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40) (Troetffordd/Ffordd Feiciau Gyfun, Windyhall, Abergwaun) 2005", a lofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

**4.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Tachwedd 2005 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain — Abergwaun (A40) (Troetffordd/Ffordd feiciau Windyhall, Abergwaun) 2005.

(**1**) 1980 p.66

(**2**) Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

*S C Shouler*
Cyfarwyddwr yr Is-adran Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

31 Hydref 2005

## YR ATODLEN

### LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

Mae llwybr y gefnffordd newydd yn llwybr yn Windyhall, Abergwaun yn Sir Benfro ac mae'n droetffordd/ffordd feiciau gyfun 325 o fetrau o hyd ac sy'n dechrau ar bwynt tua 135 o fetrau i'r gorllewin i gornel ogledd-orllewinol Windyhall House ac sy'n dod i ben ar bwynt tuag 66 o fetrau i'r gogledd-gogledd-ddwyrain i gornel ogledd-ddwyreiniol Windyhall Cottage.